




WALK

#walktheglobalwalk

**Atodiadau ar gyfer
y Pecyn Adnoddau
i Athrawon.**

**NDC 13: Gweithredu dros
yr Hinsawdd.**



Co-funded by the European Union.
This Publication was produced with the
financial support of the European
Union. Its contents do not necessarily
reflect the views of the European Union.



PORTREAD O HYRWYDDYDD NDC 13: GRETA THUNBERG

BRUSSELS, BELGIUM. 21st February 2019. Swedish 16-year-old climate activist Greta Thunberg takes part in a march for the environment

Beth allwn ni ei ddysgu gan berson ifanc 16 oed?

A hithau ond yn 16 oed, mae'r ymgyrchydd newid hinsawdd o Sweden Greta Thunberg, wedi llwyddo cael y byd cyfan i wrando arni. Ar yr 20fed Awst 2018, penderfynodd Greta, a oedd yn 15 ar y pryd, beidio mynd i'r ysgol, ac yn hytrach eisteddodd ar ei phen ei hun y tu allan i Senedd Sweden gyda baner yr oedd wedi'i gwneud ei hun yn dweud 'ar streic ysgol dros yr hinsawdd'. Roedd eisiau tynnu sylw at yr argyfwng newid hinsawdd sy'n wynebu'r byd. Gofynnodd "pam ddylwn i fod yn astudio ar gyfer dyfodol na fydd yn bod cyn bo hir gan nad oes neb yn gwneud unrhyw beth o gwbl i achub y dyfodol hwnnw?" Mae hi'n poeni am y dyfodol ac yn enwedig felly am ddyfodol ei chenchedlaeth ei hun. Mae hi am i'r genhedlaeth hŷn, gwleidyddion a'r gwneuthurwyr penderfyniadau sylweddoli eu bod, trwy beidio gweithredu gyda digon o frys, yn 'dwyn ein dyfodol'. Mae hi am iddyn nhw 'weithredu fel pe bai'r tŷ ar dân. Ei neges yw 'Rwyf eisiau ichi banicio'.



Mewn cyfweiliad gyda Jonathan Watts o bapur newyddion y Guardian (dolen yma) dywedodd Greta ei bod, ar y diwrnod streic ysgol cyntaf hwnnw y tu allan i Senedd Sweden, wedi eistedd ar ei phen ei hun o 8.30am tan 3pm. Fodd bynnag, ar yr ail ddiwrnod dechreuodd pobl ddod i ymuno â hi 'ac wedi hynny roedd pobl yno drwy'r amser'. Mae ei dyncwch wedi helpu pobl ifanc eraill i ddod yn ymwybodol o effaith dynol, economaidd ac amgylcheddol yr argyfwng hinsawdd hwn sydd ar fin ein taro. Mae wedi'u helpu i sylweddoli hefyd fod eu llais yn cyfrif. Canlyniad hyn oll yw y cafwyd streiciau ysgol dros yr hinsawdd mewn sawl gwlad a daeth **#futureforfridays** yn ffenomenon byd-eang. Mae pobl ifanc yn sefyll gyda Greta ac yn mynnu fod pobl yn gwrando arnynt.

Ers y diwrnod cyntaf hwnnw ym mis Awst 2018, bu Greta yn siarad ag arweinwyr byd ac yn ymgyrchu mewn raliau mewn sawl gwlad. Mewn araith o bwys yn Fforwm Economaidd y Byd yn Davos yn 2018, dywedodd "ydym, rydym yn dal i fethu ond mae amser o hyd i newid pethau. Gallwn gywiro hwn o hyd" ond "Dydwn i ddim eisiau ichi obeithio, rydw i am ichi weithredu fel pe bai'r tŷ ar dân – oherwydd mae e"

Pwyntiau allweddol gan Greta:

1. Lleihau allyriadau co2 gan o leiaf 50%
2. Cydnabod methiannau cyffredinol ein systemau presennol
3. Datrys yr argyfwng hinsawdd yw'r her fwyaf a mwyaf cymhleth
4. Rhoi terfyn ar allyrru nwyon tŷ gwyrdd
5. Creu gweithredu trawsnewidiol fydd yn diogelu amodau byw ar gyfer y ddynol ryw i'r dyfodol
6. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyhoeddus ehangach o'n cyllidebau carbon
7. Po fwyaf eich ôl troed carbon, po fwyaf eich dyletswydd foesol. Po fwyaf eich llwyfan po fwyaf eich cyfrifoldeb



www.facebook.com/gretathunbergsweden



@gretaThunberg - Twitter



<https://www.ted.com>

<https://www.fridaysforfuture.org/greta-speeches>

Atodiad 1 - Cardiau




Atodiad 2 - Cardiau

Y NODAU BYD-EANG

Ar gyfer Datblygu Cynaliadwy





Atodiad 4 - Beth yn y byd ydyn ni'n ei wybod? Gweithgaredd cyfateb geirfa

Mae'r UNFCC (Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig) ar Newid Hinsawdd yn gytundeb hanesyddol, ond mae'n cynnwys llwyth o jargon a geirfa wyddonol. Ydych chi'n gwybod yr hanfodion?

Gweithiwch mewn grŵp/pâr. Mae gennych 3 munud i gysylltu cymaint o'r termau sylfaenol hyn gyda'u diffiniadau ag y gallwch.

1.	Y broses lle y mae nwyon yn yr atmosffer yn trapio gwres yr haul
2.	Y mathau o nwyon sy'n trapio cynhesrwydd yr haul yn yr atmosffer
3.	Nwy tŷ gwydr a chanddo'r enw cemegol CO ²
4.	Pan mae tymheredd gyfartalog y Ddaear yn cynhesu
5.	Y gair gwyddonol am 'awyr'
6.	Nwyon tŷ gwydr a achosir gan weithgarwch dynol
7.	System o blanhigion ac anifeiliaid yn cyd-fyw
8.	Pan mae math o blanhigyn neu anifail yn diflannu'n gyfan gwbl
9.	Gallu rhagweld, paratoi ar gyfer ac ymateb i ddigwyddiadau hinsawdd peryglus
10.	Rhywbeth y mae pobl yn ei wneud neu'n gwneud iddo ddigwydd
11.	Y tiroedd, coedwigoedd, ffynonellau ynni a mwynau sy'n bodoli'n naturiol y gall pobl eu defnyddio
12.	Tanwydd naturiol fel nwy neu lo, a ffurfiwyd yn y gorffennol daearegol o weddillion pethau byw
13.	Pan mae tir ffrwythlon yn troi'n anialwch, fel arfer oherwydd sychder neu ddadgoedwigo
14.	Faint o CO ₂ sy'n cael ei ryddhau yn yr atmosffer oherwydd unigolyn, sefydliad neu gymuned
15.	Cytundeb Paris 2016
16.	Y weithred o leihau pa mor niweidiol yw rhywbeth

Ecosystem	Adnoddau naturiol	Lliniariad	Rhybudd byd-eang
Effaith tŷ gwydr	Nwyon tŷ gwydr	Diffeithu	Cytundeb byd-eang i ymladd newid hinsawdd
Allyriadau	Atmosffer	Carbon deuocsid	Tanwyddau ffosil
Ôl troed carbon	Gweithgarwch dynol	Cydnerthedd Hinsawdd	Difodiant

Wedi ichi gwblhau'r gweithgaredd, gall eich athro/athrawes wirio eich atebion gan ddefnyddio'r tabl isod.

Atebion cyfateb geirfa

1.	Y broses lle y mae nwyon yn yr atmosffer yn trapio gwres yr haul	Effaith tŷ gwydr
2.	Y mathau o nwyon sy'n trapio cynhesrwydd yr haul yn yr atmosffer	Nwyon tŷ gwydr
3.	Nwy tŷ gwydr a chanddo'r enw cemegol CO ₂	Carbon deuocsid
4.	Pan mae tymheredd gyfartalog y Ddaear yn cynhesu	Cynhesu byd-eang
5.	Y gair gwyddonol am 'awyr'	Atmosffer
6.	Nwyon tŷ gwydr a achosir gan weithgarwch dynol	Allyriadau
7.	System o blanhigion ac anifeiliaid yn cyd-fyw	Ecosystem
8.	Pan mae math o blanhigyn neu anifail yn diflannu'n gyfan gwbl	Difodiant
9.	Gallu rhagweld, paratoi ar gyfer ac ymateb i ddigwyddiadau hinsawdd peryglus	Cydnherthedd hinsawdd
10.	Rhywbeth y mae pobl yn ei wneud neu'n gwneud iddo ddigwydd	Gweithgarwch dynol
11.	Y tiroedd, coedwigoedd, ffynonellau ynni a mwynau sy'n bodoli'n naturiol y gall pobl eu defnyddio	Adnoddau naturiol
12.	Tanwydd naturiol fel nwy neu lo, a ffurfiwyd yn y gorffennol daearegol o weddillion pethau byw	Tanwyddau ffosil
13.	Pan mae tir ffrwythlon yn troi'n anialwch, fel arfer oherwydd sychder neu ddadgoedwigo	Diffeithu
14.	Faint o CO ₂ sy'n cael ei ryddhau yn yr atmosffer oherwydd unigolyn, sefydliad neu gymuned	Ôl troed carbon
15.	Cytundeb Paris 2016	Cytundeb byd-eang i ymladd newid hinsawdd
16.	Y weithred o leihau pa mor niweidiol yw rhywbeth	Lliniariad

Os ydych wedi mwynhau'r gweithgaredd hwn ac os hoffech brofi eich gwybodaeth fwy fyth, rhowch gynnig ar y cwis hwn gan Oxfam GB a phrofwch eich 'ymwybyddiaeth hinsawdd'.

<https://www.oxfam.org.uk/education/resources/climate-change-quiz>

Atodiad 5

Chwalu Mythau Beth maen Nhw'n Ddweud am Newid Hinsawdd – Gwir? Neu Anwir?			
Mae gwastraffu llai o fwyd yn ffordd o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr	Nid yw gwyddonwyr yn gallu cytuno fod newid hinsawdd yn digwydd ac mai pobl sy'n ei achosi	Y cynnydd cyfartalog yn nhymheredd y byd ers 1880 yw 5 gradd Fahrenheit	Mae'n syniad da gofyn i'r coed am newid hinsawdd
UDA sy'n allyrru'r cyfanswm mwyaf o CO ₂	Mae gweithredoedd anifeiliaid yn cyfrannu at newid hinsawdd	Ni fydd cwpanaid o de fyth yn blasu'r un peth oherwydd newid hinsawdd	Mae eirth gwynion wedi bod yn sgelfrio ar ia tenau ers 1979
Mae prynu nwyddau Masnach Deg yn gallu helpu gwrthwneud newid hinsawdd	Mae defnyddio gwasanaethau bwytai Drive Thru yn fwy llesol i'r amgylchedd gan ei fod yn gyflymach	Mae gwau yn llesol i'r blaned	True False

Chwalu Mythau!

Newid Hinsawdd – Gwahanu'r Ffeithiau o'r Ffuglen


Mae gwastraffu llai o fwyd yn ffordd o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr	G	Nid yw mwy na thraean o'r bwyd a gynhyrchir yn y byd fyth yn cyrraedd y bwrdd bwyd. Mae peth o'r bwyd gwastraff hwn yn difetha wrth gael ei gludo, ac mae defnyddwyr yn taflu peth o'r bwyd hwn. Wrth gynhyrchu, cynaeafu, cludo a phecynnu'r bwyd gwastraff, caiff dros 3.3 biliwn tonnall metrig o garbon deuocsid ei allyrru.
Nid yw gwyddonwyr yn gallu cytuno fod newid hinsawdd yn digwydd ac mai pobl sy'n ei achosi	A	Mae 97 y cant (neu ragor) o wyddonwyr hinsawdd yn cytuno fod newid hinsawdd yn debygol oherwydd gweithgarwch dynol. Mae bron i 200 o sefydliadau gwyddonol ledled y byd wedi cyhoeddi datganiadau sy'n cadarnhau'r farn hon yn gyhoeddus
UDA sy'n allyrru'r cyfanswm mwyaf o CO2	A	Yn ôl yr EPA, Tsieina yw'r brif allyrrydd carbon deuocsid ar hyn o bryd; maen nhw'n cynhyrchu 30% o gyfanswm allyriadau carbon y byd. Yr Unol Daleithiau yw'r ail allyrrydd uchaf ar 15%.
Y cynnydd cyfartalog yn nymheredd y byd ers 1880 yw 5 gradd Fahrenheit	A	Mae tymheredd gyfartalog y byd wedi codi 1.69 gradd F (0.94 gradd C) ers yr ugeinfed ganrif, a chafwyd cynhesu mwy arwyddocaol tua'r pegynnau nac yn ardal y cyhydedd.
Mae gweithredoedd anifeiliaid yn cyfrannu at newid hinsawdd	G	Credwch neu beidio, mae arferion bwyta gwartheg yn cyfrannu at nwyon tŷ gwydr. Yn union fel ninnau, pan mae gwartheg yn bwyta, mae nwy methan yn cronni yn eu system dreulio ac yn cael ei ryddhau. Dychmygwch fod bron i 1.5 biliwn o wartheg yn rhyddhau'r holl nwy yna i'r atmosffer, mae hwnna'n dipyn o nwy!
Ni fydd cwpanaid o de fyth yn blasu'r un peth oherwydd newid hinsawdd	G	Rydym yn hoff iawn o baned dda yng ngwledydd Prydain, (tua 165 miliwn cwpaned o'r stwff bob dydd!), ond mae'n debyg ein bod yn cymryd yn ganiataol faint o waith sydd ei angen i dyfu ein te. Gall amgylchiadau amgylcheddol effeithio'r blas a'r ansawdd, ac mae angen lefel benodol iawn o lawiad i dyfu. Yn Cenia, mae newid hinsawdd yn gwneud patrymau glawiad yn llai a llai rhagweladwy. Yn aml fe fydd sychder ac yna llawer iawn o law i ddilyn, sy'n ei gwneud yn anodd iawn i dyfu te.
Mae prynu nwyddau Masnach Deg yn gallu helpu gwrthwneud newid hinsawdd	G	Gall prynu nwyddau Masnach Deg helpu gofalu fod ffermwr yn cael cyflog teg. Golyga hynny y gallant dalu eu costau, ennill digon o arian i gael safon byw gweddol a buddsoddi yn eu ffermydd i gadw eu cnydau'n iach, heb orfod defnyddio dulliau niweidiol o amaethu megis chwistrellu plaladdwyr sy'n gallu gwneud mwy o ddrwg i'r amgylchedd a'r bobl sy'n gweithio yno.
Mae defnyddio gwasanaethau bwyta Drive Thru yn fwy llesol i'r amgylchedd gan ei fod yn gyflymach	A	Cadwch allan o'r drive thru! Os ewch i le bwyd cyflym, gofynnwch i'ch gyrrwr barcio'r car a gadael ichi gerdded i mewn, yn hytrach nac eistedd mewn rhes o geir gyda'r peiriant yn rhedeg a llygru. Edrychwch ar fanylion unrhyw fwyta bwyd cyflym yr ewch iddynt – pa mor amgylchwendus maen nhw? Beth maen nhw'n ei wneud i liniaru newid hinsawdd?
Mae'n syniad da gofyn i'r coed am newid hinsawdd	G	Gan fod coed yn sensitif i amgylchiadau hinsawdd lleol, megis glaw a thymheredd, maent yn rhoi rhywfaint o wybodaeth i wyddonwyr am hinsawdd lleol yr ardal honno yn y gorffennol. Er enghraifft, mae cylchoedd coed fel arfer yn tyfu'n lletach mewn blynyddoedd cynnes, gwlyb ac maen nhw'n deneuach mewn blynyddoedd oer a sych. Os yw'r goeden wedi cael ei rhoi dan straen, megis mewn sychder, efallai na fyddai'r goeden yn tyfu fawr ddim yn y blynyddoedd hynny
Mae eirth gwynion wedi bod yn sgelfrio ar ia tenau ers 1979	G	Mae gwybodaeth o loerennau Daear NASA yn yn dangos inni fod peth o ia'r Arctig yn toddi a chrebachu bob haf, a'i fod ar ei leiaf erbyn mis Medi. Yna, pan mae'r gaeaf yn cyrraedd, mae'r ia yn tyfu eto. Ond er 1979, mae ia mis Medi wedi bod yn mynd yn llai a llai ac yn deneuach a theneuach. Felly, mae'r tamaid lleiaf o gynhesu yn gallu cael effaith enfawr dros nifer o flynyddoedd.
Mae gwau yn llesol i'r blaned	G	Mae cael ambell ddilledyn gwlân ychwanegol yn ein wardrob yn golygu y gallwn droi'r thermostat i lawr ar y gwresogi pan mae'n oer. Mae siwmpersi, blancedi a sanau yn dda ichi ac yn well i'r blaned.

Atodiad 6 - Adeiladu Empathi. Yn eu hesgidiau...

Trawodd Seiclun Idai Mozambique, Malawi a Zimbabwe rhwng 14 – 21 Mawrth 2019. Oherwydd y digwyddiad dinistriol hwn, newidiodd bywydau pobl am byd. Roedd rhai o'r bobl yn gweithio i asiantaethau ymateb ac roedd rhai yn drigolion.

Lucy: Rydych wedi cyrraedd gwerysll ar gyfer pobl a ddadleolwyd yn ne Malawi. Rydych yn 17 oed ac fe roesoch enedigaeth ar ôl cerdded 12 cilomedr i ddianc rhag dyfroedd llifogydd. (Budd-ddeiliad)	Clara: Rydych wedi bod yn yfed o ffynhonnau llygredig yn Beira, Mozambique. Rydych yn un o'r bobl gyntaf i gael diagnosis colera (Budd-ddeiliad)
Francine: Rydych yn feddyg yn gweithio gyda Meddygon Heb Ffiniau. Rydych yn gweithio yn un o'r gwerysllodd cymorth, ac yn helpu gofalu fod pobl mewn angen yn gallu derbyn gofal iechyd allai achub eu bywydau. (Asiantaeth)	Tsepo: Rydych yn fachgen 14 oed a achubwyd o ysgol breswyl yn Zimbabwe. Nid oes gennych unrhyw syniad a yw unrhyw un o'ch teulu yn dal yn fyw. Cafodd yr holl linellau pŵer a chyfathrebu eu dinistrio. (Budd-ddeiliad)
Rhys: Rydych yn wirfoddolydd cymorth trychineb o Abertawe. Rydych yn helpu dosbarthu dognau bwyd a hidlyddion dŵr ar gychod i ardaloedd sydd wedi cael eu hynysu gan ddŵr llifogydd. (Asiantaeth)	Sugesh: Rydych yn dad 30 oed. Bu farw holl aelodau eich teulu yn y seiclun. Mae gennych gwch gwaelod gwastad ac mae eich angen i helpu dosbarthu dognau ac achub pobl a gafodd eu hynysu gan y llifogydd. (Budd-ddeiliad)

Meddyliwch yn awr am sut brofiad fyddai bod yn esgidiau un o'r bobl yma yn ystod y cyfnod hwn. Dychmygwch yr ystod o emosiynau fyddai gennych. Defnyddiwch y model Matrics Empathi hwn. Ysgrifennwch beth fydddech yn ei WNEUD, ei FEDDWL a'i DEIMLO.



Atodiad 7 - Mudwyr Hinsawdd

Cyfarwyddiadau: Defnyddiwch y map stori a grëwyd gan dîm mapiau stori ESRI i ateb/trafod y cwestiynau canlynol am newid hinsawdd a'r patrymau mudo sy'n deillio o hynny

Beth yw Mudwr Hinsawdd?

Enwch rai enghreifftiau o fygythiadau amgylcheddol sy'n gorfodi pobl i fudo.

Pa 2 gymuned arfordirol yn Alasca sydd wedi gorfod symud oherwydd nifer o fygythiadau amgylcheddol?.

Sut mae cenedl Kiribati yn y Môr Tawel yn bwriadu delio â lefelau'r môr yn codi?

Enwch 2 leoliad arall yn y Môr Tawel sy'n profi bygythiadau amgylcheddol

Yn India, mae'r Ganges a'r Brahmaputra yn ffurfio'r delta mwyaf yn y byd. Pam mae'r ardal hon yn un o'r rhai mwyaf bregus ar ein planed?

Erbyn hyn mae poblogaeth Dhaka yn

oherwydd lefelau mudo uwch dros y

25 mlynedd diwethaf?

Profodd pobl yn Syria a rwygwyd gan ryfel sychder hir iawn a gychwynnodd yn 1997 ac a orffennodd yn ...

Mae gwledydd datblygedig fel yr Unol Daleithiau hefyd yn cael eu bygwth wrth i lefelau'r môr godi. Enwch 2 ardal yn UDA sy'n wynebu'r bygythiad hwn.

Sut maen nhw mewn gwell sefyllfa i ddelio â'r broblem na gwledydd llai datblygedig?

Atodiad 8 - Astudiaeth enghreifftiol a dolenni i adroddiadau newyddion

Astudiaeth Enghreifftiol: Argyfwng Hinsawdd – Pwy Sy'n Dioddef Fwyaf?

Effaith sychder El Nino 2016 ar un teulu yn Lesotho

Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Lesotho sefyllfa argyfwng oherwydd y sychder a achoswyd gan El Nino a ddinistriodd gnydau a chynaeafau yn 2015 a 2016. Lansiodd Rhaglen Fwyd y Byd (WFP) ymgyrch frys a lwyddodd, ym mis Mawrth 2016, i gyrraedd tua 200,000 o bobl bwyd-ansicr gyda chymorth ariannol. Oherwydd sychder El Nino, aelodau tlotaf y gymuned oedd y mwyaf bregus a nhw ddioddefodd fwyaf.

Darllenwch stori Mrs Ramotobo. Beth yw canlyniadau'r gadwyn o ddigwyddiadau a ddigwyddodd iddi hi a'i theulu oherwydd y sychder?

Mae Mrs. Ramotobo (83 oed) yn byw gyda'i hwyrion a hwyresau amddifad mewn pentref ar odre ardal Maseru. Mae ganddi ddarn bach o dir lle mae'n tyfu cnydau i'w gwerthu ac i fwydo'r teulu.

Mae'r sychder wedi dinistrio'r cnydau, a heb gnydau i gynhyrchu incwm nid oes gan y teulu lawer o fwyd nac arian. Mae ei mab hynaf yn ffermwr da ond bu'n rhaid iddo adael y pentref. Erbyn hyn mae'n byw a gweithio dros y ffin yn Ne Affrica gan fod swyddi ar gael yno. Trwy fudo dros y ffin, gall ennill arian i'w ddanfoni gartref i'r teulu. Mae llawer o'r teuluoedd yn y pentref hwn ac ar draws Lesotho mewn sefyllfa debyg. Golyga hynny fod holl ddyletswyddau gofalu am y cartref, gofalu am y teulu, gofalu am y tir a gofalu am yr anifeiliaid yn gorwedd yn llwyr ar ysgwyddau'r menywod a'r plant.



Mae Mrs Ramotobo yn derbyn pensiwn henoed.

Cyn y sychder, bu'n defnyddio'r pensiwn i dalu i'w hŵyr hynaf fynd i'r ysgol, gan nad yw addysg uwchradd yn rhad ac am ddim yn Lesotho. Erbyn hyn bydd rhaid iddi ddefnyddio ei phensiwn i brynu bwyd. Ni fydd ei hŵyr yn gallu mynd i'r ysgol o hyn ymlaen. Mae gan Lesotho lefelau uchel o ddisgyblion yn gadael addysg uwchradd o dan amgylchiadau arferol. Gyda'r straen ychwanegol a ddaeth yn sgil El Nino, ni all llawer o deuluoedd fforddio talu'r ffioedd ac mae effaith hirdymor mwy a mwy o ddisgyblion yn gadael addysg uwchradd yn destun cryn bryder.

I'w helpu yn ei sefyllfa, cafodd Mrs Ramotobo arian gan Raglen Fwyd y Byd. Helpodd yr arian hwn hi'n fawr, a llwyddodd i ddefnyddio'r arian i greu sefyllfa fwy cynaliadwy iddi hi a'i theulu.

Mae canlyniadau trychineb naturiol mor ddinistriol yn rhai difrifol a hirdymor. Beth yn eich barn chi yw canlyniadau'r gadwyn o ddigwyddiadau a ddigwyddodd i Mrs Ramotobo a'i theulu oherwydd y sychder?

Y Perygl o Ddiodef Siociau Newid Hinsawdd

Effaith El Niño

Tarfodd El Niño, a achoswyd gan newid hinsawdd, ar batrymau hinsawdd a thywydd arferol. Canlyniad hynny oedd sychder difrifol rhwng 2015 - 2016

Cadwyn digwyddiadau oherwydd El Niño		Canlyniadau
Sychder		
Daeth storffeydd bwyd i ben		
Mae'n rhaid prynu bwyd ac mae prisiau'n codi		
Mae'r tlotaf yn ei chael yn anodd prynu bwyd		
Mae tlodi a newyn yn faterion beunyddiol		
Mae angen cymorth dyngarol e.e o Raglen Fwyd y Byd (WFP)		

Sut ydych chi'n credu y llwyddodd Mrs Ramotobo i wella ei sefyllfa a'i gwneud yn fwy cynaliadwy gyda chymorth y gefnogaeth ariannol gan y WFP.

Dolenni Newyddion

Seiclon Mozambique Idai a Kenneth <https://globalnews.ca/news/5236799/mozambique-children-cyclones/>

Seiclon India Fani <https://www.bbc.co.uk/news/world-asia-48160096>

UDA <https://www.nytimes.com/2019/03/21/climate/climate-change-flooding.html>

Lesotho <http://ls.one.un.org/content/unct/lesotho/en/home/humanitarian-efforts.html>

<https://www.theguardian.com/environment/ng-interactive/2018/dec/21/deadly-weather-the-human-cost-of-2018s-climate-disasters-visual-guide>

Atodiad 9 - Cysylltwch y cardiau disgrifio effaith gyda'r cardiau amgylchedd naturiol perthnasol

1. Mae'r amgylchedd hwn yn parhau i gynhesu ddwy neu dair gwaith yn gyflymach na'r cyfartaledd ar gyfer gweddill y byd. Mae gorchudd ia yr haf yn crebachu, ac mae ia parhaol yn toddi. Mae anifeiliaid fel morfilod yn colli eu prif gyflenwad bwyd ac mae eraill fel pengwinaid dan fygythiad.	2. Er bod yr amgylchedd hwn yn gorchuddio llai nac 1% o lawr y cefnfor, mae'n darparu bwyd a chysgod i fwy na 1/3 o holl bysgod y môr! Mae'n cael ei wanhau gan fod tymereddau'r môr yn codi ac wrth i'r cefnfor asideiddio oherwydd bod mwy o garbon deuocsid yn adweithio gyda dŵr hallt.
3. Mae llifogydd mwy rheolaidd a chael eu llygru gan ddŵr hallt wrth i lefelau'r môr godi yn effeithio'r cynefin hwnt. Mae'r rhain yn boddi coed fel mangrofau ac mae sychderau yn cyfrannu at ddinistrio aberoedd a chorstiroedd.	6. Efallai na fydddech yn meddwl fod llawer o bobl yn byw yma, ond mewn gwirionedd mae 500 miliwn yn! Mae'r amgylchedd hwn yn ehangu o ran maint ond mae tymereddau uwch yn ei wneud yn lle mwyfwy gelyniaethus. Mae glawiad yn mynd yn brinnach fyth yma ac mae stormydd llwch yn digwydd yn amlach.
5. Mae tymheredd yn codi ym misoedd yr haf ac mae'r codiad yn y carbon deuocsid yn yr atmosffer yn golygu fod tanau'n digwydd yn amlach, eu bod yn gwasgaru'n gyflymach ac yn creu mwy o ddinistr. Mae gaeafau cynhesach yn golygu nad yw rhai plaon yn cael eu lladd gan ia mwyach, a gall hyn wneud i'r amgylchedd grebachu fwy fyth.	4. Ar un adeg roedd 25% o'r ddaear yn cael ei orchuddio gan y rhain, ond cafodd llawer ohono ei ddatblygu'n dir amaethu erbyn hyn, ac arweiniodd hynny at ostyngiad yn nifer y rhywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion. Gallai mwy o gynhesu byd-eang a diffyg glawiad droi'r amgylchedd hwn yn ddiffeithdir.

Riffiau cwrel	Ardaloedd pegynnol	Gwlyptiroedd
Anialwch	Coedwig	Glaswelltiroedd

Atodiad 10

Cyn ichi wylïo'r fideo “Our planet: how to save our forests?”, darllenwch drwy'r datganiadau isod. Wedi gwylïo'r fideo, nodwch a dydynt yn wir neu'n anwir a chywirwch y rhai anwir.

1. Rydym wedi clirio 25% o goedwigoedd y byd yn barod.

2. Mae coed yn wydn, gallant oroesi mewn lleoedd annhebygol ac adfywio wedi amgylchiadau tywydd llym.

3. Rydym yn torri 10 miliwn o goed y flwyddyn i lawr.

4. Rydym wedi niweidio'r cydbwysedd rhwng ysglyfaethwyr y goedwig a'r bwytywyr planhigion, gan wneud coed yn fwy bregus.

5. Mae coed yn hollbwysig gan eu bod yn storio ocsigen o'r atmosffer ac yn ei storio yn eu boncyffion, gwreiddiau ac yn y pridd.

6. Mae dinistrio coedwigoedd i wneud mwy o le i amaethu gwartheg a thyfu cnydau fel soia yn rhyddhau symiau peryglus o garbon sy'n cyfrannu at newid hinsawdd.

7. Nid oes unrhyw atebion hawdd i'r problemau a achoswyd gan ddadgoedwigo.

Atodiad 11

Mewn grwpiau, trafodwch yr atebion a ginigiwyd yn y fideo “Our Planet: how to save our forests”. Meddyliwch allwch chi ychwanegu ambell syniad eich hun, gwnewch rywfaint o ymchwil a llanwch y tabl.

Ateb a gynigiwyd	Pa mor effeithiol fyddai hyn?	Pa mor hawdd fyddai rhoi hyn ar waith?	Beth allwn ni ei wneud fel unigolion i helpu gyda hyn?	Beth allem ni ei wneud fel ysgol i gefnogi hyn?	Pwy arall allem ni eu cynnwys/gofyn iddynt am gefnogaeth?
Diogelu coedwigoedd hynafol					
Defnyddio coedwigoedd yn fwy gofalus					
Plannu mwy o goed yn lleol					
Plannu mwy o goed mewn ardaloedd trofannol					
Gwneud defnydd arloesol o dechnoleg					
Eich syniad(au)					

Atodiad 12a - Ffeithlen Rhywogaethau a Newid Hinsawdd

Môr-grwban lledraidd

Mae rhyw cywion môr-grwbanod yn dibynnu ar ba dymheredd y caiff yr wyau eu deor yn y nyth. Mae nythod mwy claeaf yn cynhyrchu mwy o wrywod, ac mae nythod cynhesach yn cynhyrchu mwy o fenywod. Wrth i newid hinsawdd arwain at dymhereddau uwch, bydd mwy o'r nythod yn cynhyrchu benywod, gan greu anghydwysedd yn nifer y môr-grwbanod gwrywaidd a benywaidd yn y boblogaeth. Mae newid hinsawdd yn gallu arwain hefyd at godi lefelau'r môr ac at fwy o stormydd all ddifrodi traethau nythu môr-grwbanod.



Morfil cywir Gogledd yr Iwerydd

Mae codiadau yn nhymeredd y môr a newidiadau yng ngherryntoedd cefnforoedd oherwydd newid hinsawdd yn debygol o achosi i ysglyfaeth planctonig morfil cywir Gogledd yr Iwerydd newid lleoliad neu fynd yn llai niferus. Gallai hyn gael canlyniadau dinistriol ar gyfer y rhywogaeth hwn sydd eisoes mewn perygl mawr.



Cwreli Staghorn

Mae newid hinsawdd yn un o'r bygythiadau mwyaf i riffiau cwrel. Mae codiad yn nhymeredd y môr yn arwain at gynydd mewn cannu. Mae cannu cwrel yn broses sy'n golygu nad yw cwrel yn gallu cael digon o faetholion, ac mae'n dechrau llwgu. Mae newid hinsawdd hefyd yn cynyddu asidrwydd y cefnforoedd, sy'n effeithio gallu'r cwrel i gynhyrchu ei sgerbwd, sy'n gwneud y rhywogaeth yn agored i ddioddef clefydau.



Llwynog Arctig

Mae newid hinsawdd yn newid cynefin y Llwynog Arctig. Oherwydd newidiadau yn yr hinsawdd, mae planhigion newydd yn gallu byw erbyn hyn yn y twndra y mae'r Llwynog Arctig yn byw ynddo. Mae'r planhigion newydd hyn yn newid cynefin y twndra, gan ei wneud yn anaddas i'r Llwynog Arctig. Gwneir y broblem hon yn waeth gan fod y cynefin newydd yn galluogi'r Llwynog coch, rhywogaeth sy'n cystadlu â'r Llwynog Arctig, i symud i'r gogledd i mewn i'r twndra.



Pengwin Ymerodrol

Mae rhannau o Benrhyn yr Antarctig yn cynhesu'n gyflymach nac unrhyw le arall ar y blaned, a byddai codiad o ddim ond dwy radd yn y dymheredd yn golygu na fyddai dim rhew mewn rhai rhannau o'r ardal hon. Mae pengwinaid ymerodrol yn dibynnu ar rew môr i greu llwyfan ar gyfer magu, a hebdo byddai'r rhywogaeth hwn yn ei chael yn anodd i oroesi. Mae'r gostyngiad yn lefelau gorchudd ia yn y môr yn golygu hefyd fod llai o rai mathau o rywogaethau ysglyfaeth ar gael, megis cril, sy'n bwydo o dan yr ia.



Pysgod clown

Mae pysgod clown yn dibynnu ar anemonïau môr i'w diogelu. Gwelir anemonïau môr yn bennaf ar riffiau cwrel, sy'n lleihau oherwydd newid hinsawdd. Bydd gostyngiad yn nifer yr anemonïau môr yn arwain at leihad yn nifer y pysgod clown.



Coala

Mae eirth coala yn cael y rhan fwyaf o'u hegri o fwydo ar ddail ewcalyptus. Mae codiad yn lefelau carbon deuocsid oherwydd newid hinsawdd yn gallu gwneud i werth maethol y dail leihau, sy'n golygu nad yw'r eirth coala yn cael y maetholion sydd eu hangen arnynt i oroesi. Gyda'u croen trwchus a'u ffwr cynnes, nid yw eirth coala yn ymdopi'n dda mewn gwres eithafol, a gallant fynd i'r llawr i chwilio am ddŵr. Mae hyn yn eu rhoi mewn perygl o gael eu cymryd gan ysglyfaethwr. Mae eirth coala yn symud yn araf ac yn byw mewn coed, ac mae cynnydd yn nifer y tanau llwyni yn eu rhoi mewn sefyllfa fregus.



Coeden gewyll

Mae newid hinsawdd yn gwneud i dymhereddau godi ac yn gostwng lefelau glawiad, sy'n golygu fod rhai rhywogaethau fel y goeden gewyll yn dioddef o straen sychder. Gall rhai rhywogaethau addasu trwy newid eu cwmipas a symud i ardaloedd mwy addas, ond efallai na fydd planhigion fel y goeden gewyll yn gallu gwladychu ardaloedd newydd yn ddigon cyflym i ddygymod â'r newidiadau cyflym yn yr hinsawdd.



Morfil Beluga

Mae newid hinsawdd yn newid patrymau gweithgarwch dynol, a gall hyn gael effaith anuniongyrchol ar y morfil beluga. Roedd y gorchudd ia helaeth yn yr Arctig yn golygu y bu sawl ardal yn anhygyrch i bobl ar un adeg. Fodd bynnag, wrth i'r gorchudd ia leihau, mae pobl erbyn hyn yn gallu mynd i mewn i ardaloedd a fu unwaith yn lloches i forfilod beluga. Mae mwy o longau'n hwylio trwy'r Arctig erbyn hyn, sy'n cynyddu'r perygl y gallai morfilod beluga gael eu taro gan gychod a chael eu hanafu neu eu lladd. Efallai hefyd y gallai llygredd sŵn yn yr ardal effeithio'n negyddol ar alluoedd cyfathrebu a fforio y rhywogaeth anarferol hwn.




Llyffant euraidd

Credir y digwyddodd difodiant y llyffant euraidd yn bennaf oherwydd newid hinsawdd a heintiau. Mae amffibiaid yn sensitif i'r newidiadau lleiaf mewn tymheredd a lleithder, sy'n golygu fod newidiadau yn yr hinsawdd yn gallu newid ymddygiad magu a llwyddiant i atgynhyrchu.





Atodiad 12 b

Mae angen torri ‘r isod mewn i gardiau llun a thestun ar wahân a’u hap drefnu cyn roi set i bob grŵp o ddysgwyr.


	Mae newid yn yr hinsawdd yn fygythiad mawr i ‘r rhywogaeth hon gan leihau ei gallu i gael maethynnau a chreu ei sgerbwdd
	Mae ‘r rhew môr, y mae ei angen ar y rhywogaeth hon er mwyn bridio, yn diflannu
	Credir bod newid yn yr hinsawdd wedi chwarae rhan yn nifodiant y rhywogaeth hon
	Y prif fygythiad i ‘r rhywogaeth hon yw newid cynefinoedd gan fod newid yn yr hinsawdd yn caniatáu i blanhigion newydd dyfu yn y twndra lle mae e’ n byw
	Mae ysglyfaeth planhigyn y rhywogaeth hon yn symud lleoliad ac yn mynd yn brin
	Gallai newid yn yr hinsawdd arwain at anghydwysedd yn nifer y gwrywod a benywod yn y rhywogaeth hon
	Gall newid yn yr hinsawdd achosi gostyngiad yng ngwerth maethol dail ewcalyptus sy ‘ n ffurfio ‘r rhan fwyaf o ddeiet y rhywogaeth hon
	Y prif fygythiad i ‘r rhywogaeth hon yw ‘r cynnydd mewn gweithgarwch dynol yn ei gynefin oherwydd bod newid yn yr hinsawdd wedi gwneud yr Arctig yn fwy hygyrch
	Mae ‘r rhywogaeth hon yn araf i symud i ardaloedd newydd, felly efallai na fydd yn dygymod â ‘r newid yn yr hinsawdd. Y prif fygythiad i ‘r rhywogaeth hon yw straen o achos sychder
	Mae newid hinsawdd yn bygwth yr anenomau môr y mae ‘r rhywogaeth hon yn dibynnu arnynt

Atodiad 13 - Cadwyn pam pam pam





NEWID HINSAWDD



WALK
#walktheglobalwalk